"Yn llaw y crochenydd" 1730–1795

(menter / gweledigaeth / gwerthfawrogi'r cain a'r prydferth)

Am saith o'r gloch bob nos byddai mam Josiah yn galw ei phlant ynghyd – 13 ohonyn nhw i gyd! Byddai'n darllen adnod neu ddwy o'r Beibl ac yna'n mynd ati i ddysgu'r plant am bethau pwysig bywyd. "Cofiwch chi," meddai, "mae hi'n bwysig iawn i ddal ati. Os ydych chi wedi dechrau ar ryw dasg neu'i gilydd yna mae hi'n bwysig eich bod yn gorffen y dasg. Does gen i ddim i'w ddweud wrth bobl sy'n gadael gwaith ar ei hanner... heb ei orffen. Ac os na fedrwch orffen y gwaith yna gofynnwch i rywun arall eich helpu."

Gwrandawai pob un plentyn yn astud arni. Doedd wiw symud pan fyddai Mrs Wedgwood yn siarad.

Ar ôl i Josiah adael yr ysgol aeth i weithio i weithdy crochenwaith ei dad. Roedd yn ei elfen yn trin y clai a thorri gwahanol siapiau o bapur. Ond pan oedd yn un ar ddeg oed cafodd y frech wen a bu ei goes yn boenus am fisoedd ar ôl hynny. Yn wir bu'n rhaid torri ei goes yn y diwedd. Ar ôl iddo wella aeth yn ôl i'r gweithdy a'r tro hwn dechreuodd gynllunio pethau ei hun.

Dechreuodd wneud pethau gwahanol fel carn addurnedig i gyllyll, platiau a golygfeydd arnyn nhw a hefyd bocsys snisin. Doedd ei frawd hynaf, a oedd yn berchen y gweithdy ar ôl marwolaeth y tad, ddim yn hapus efo hyn. "Mae'n well i ni ganolbwyntio ar y pethau rydym ni wedi arfer eu gwneud, fel llestri syml ar gyfer y bobl. Pwy fydd eisiau prynu platiau efo golygfeydd arnyn nhw, ac maen nhw'n mynd i gostio mwy o arian, beth bynnag."

"Na," oedd ateb pendant Josiah, "bydd pobl sy'n medru fforddio yn fwy na balch i brynu'r rhain ond fe allwn ni ddal i wneud llestri ar gyfer y bobl gyffredin." Doedd dim troi arno.

Ar ôl rhai blynyddoedd yn cydweithio â gwahanol bartneriaid penderfynodd Josiah ei fod am godi ffatri yn ei fro enedigol yn Burslem. Roedd yn benderfynol ei fod am greu crochenwaith ffansïol a fyddai'n denu pobl o wahanol rannau o Brydain i'w brynu. Creodd bob math o lestri ffansi a hefyd creu adar fel ciconia a hwyaid mewn crochenwaith. Aeth sôn am ei greadigaethau drwy'r wlad i gyd. Clywodd y Frenhines Charlotte am ei waith a chomisiynwyd ef i greu llestri te iddi. Pan glywodd am y comisiwn roedd wedi gwirioni. "Mae'n rhaid i mi'n bersonol

arolygu'r gwaith hwn i gyd. Fedra i ddim ymddiried yr holl waith pwysig hwn i'r gweithwyr." Pan dderbyniodd y Frenhines y llestri te roedd hi wedi gwirioni a chafodd Josiah fwy o waith ganddi. Aeth y frenhines ymhellach na hynny a mynnu y dylid ysgrifennu 'Crochenwaith y Frenhines' ar y llestri. Ond, yn fwy na hynny hyd yn oed, mynnodd y dylid apwyntio Josiah yn 'Grochenydd y Frenhines'. Yn fuan iawn daeth Crochenwaith y Frenhines yn enwog trwy Brydain benbaladr.

Cynyddodd yr archebion o flwyddyn i flwyddyn a bu'n rhaid chwilio am ffatri fwy. Nid nepell, yn Hanley, cafodd Josiah ddarn o dir ac yno yr adeiladodd ei ffatri sy'n enwog hyd heddiw.

Roedd Josiah yn gyflogwr ardderchog. Roedd bob amser yn barod i wrando ar broblemau ei weithwyr a mynnai ei fod yn rhoi amser i wrando arnyn nhw fesul un. Roedd ar flaen y gad yn y frwydr i gael ffordd o'r ffatri yn y Potteries i'r porthladd agosaf yn Lerpwl. Yn wir, aeth ati hefyd i adeiladu camlesi i gario'r crochenwaith. Byddai hyn yn sicr o leihau'r difrod fyddai'n cael ei wneud i'r crochenwaith gan fod y ffordd mor ddrwg.

Adnod: "A difwynwyd yn llaw'r crochenydd y llestr pridd yr oedd yn ei lunio, a gwnaeth ef yr eildro yn llestr gwahanol, fel y gwelai'n dda." Jeremeia 18:4

Gweddi: Wnei di fy nysgu, O Dduw, i fod yn berson mentrus sy'n barod i ddilyn llwybrau newydd. Amen.

Trafod:

- Ydych chi'n credu fod Josiah wedi gwneud y cam cywir yn mynd ati i greu crochenwaith ffasiynol?
- Pa fath o grochenwaith mae cwmni Wedgwood yn ei wneud heddiw?